

## **Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu yng Nghymru 2019/20**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i barhau â Chynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu i dalwyr ardrethi sy'n gymwys ar gyfer 2019-20. Nod y cynllun sydd wedi ei wella yw darparu cymorth i fusnesau manwerthu cymwys drwy gynnig gostyngiad o hyd at £2,500 ar y bil ardrethi annomestig i bob eiddo, a hynny ar gyfer manwerthwyr cymwys sy'n defnyddio eiddo â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20, yn ddarostyngedig i derfynau Cymorth Gwladwriaethol.

***Os oes gennych hawl i'r rhyddhad hwn, credydwyd eich cyfrif gyda'r swm cymwys (gweler isod). Os ydych chi'n credu bod gennych hawl ac nad ydych wedi cael eich dyfarnu, cysylltwch â Thîm Treth y Cyngor ar 01633 644630 neu e-bostiwch [counciltax@monmouthshire.gov.uk](mailto:counciltax@monmouthshire.gov.uk).***

### **Symiau Cymwys:**

Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo busnes a manwerthu ar y stryd fawr sy'n cael ei ddefnyddio fel siopau, bwytai, caffis a thafarnau, ac sydd â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ar 1 Ebrill 2019.

Dylid caniatáu rhyddhad i fusnesau fel taliad untro ar sail meddiant ar 31 Mawrth 2019 (ar yr amod bod yr un meddiannwr yn parhau i fod mewn meddiant ar 1 Ebrill 2019). Rydym yn cydnabod y gall rhai achosion godi pan fo awdurdod lleol yn cael ei ôl-hysbysu'n ddiweddarach am newid meddiant. Mewn achosion o'r fath, os yw'n glir mai'r meddiannwr oedd yn yr eiddo ar 1 Ebrill 2019, gall yr awdurdod lleol ddefnyddio disgrisiwn wrth ddyfarnu rhyddhad.

### **Lefel uwch o gymorth: hyd at £2,500**

Y talwyr ardrethi cymwys fydd y manwerthwyr ar y stryd fawr sydd ag eiddo â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £50,000 ar 1 Ebrill 2019-20. Disgwylir y bydd manwerthwyr â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach llawn, fodd bynnag mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu a oes eiddo nad ydynt yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a ddylai fod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad hwn.

**Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, nid yw cynllun 2019-20 wedi'i gyfyngu i eiddo ar y stryd fawr, ond bydd yn cynnwys yr holl eiddo yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf ehangach o ran manwerthu.**

### **Mae busnesau HEB fod â hawl i'r rhyddhad Stryd Fawr wedi'i dargedu yn cynnwys:**

- *Safleoedd gyda gwerth trethiannol o fwy na £50,000*
- *Safleoedd heb fod yn rhesymol hygyrch i'r cyhoedd*
- *Safleoedd na chaiff eu defnyddio*
- *Rhai sy'n derbyn rhyddhad ardrethi elusennol gorfodol*

**Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw**

- *Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthydwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)*
- *Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)*
- *Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)*
- *Swyddfa ddsbarthu Swyddfa'r Post*
- *Llety twristiaeth, ee Gwely a Brecwast, gwestau a pharciau carafanau*
- *Clybiau chwaraeon*
- *Canolfannau chwarae plant*
- *Meithrinfeydd dydd*
- *Canolfannau gweithgareddau awyr agored*
- *Campfeydd*
- *Llety cŵn a chathod*
- *Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata*
- *Asiantaethau cyflogaeth*